



RHESTR BRISIO TRETH Y CYNGOR 2005

Arweiniad i'n HYSBYSIAD CYDNABOD APÊL

Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys pob pwynt am y Tribiwnlys Prasio. Nid oes rhaid i ni ddilyn popeth yn y canllaw hwn ac nid yw'n effeithio ar sut y defnyddiwn y cyfreithiau neu reoliadau perthnasol. Cyn i ni glywed eich apêl, bydd Clerc Rhanbarthol y Tribiwnlys yn ateb unrhyw gais rhesymol sydd gennych ynglŷn â chyngor am y weithdrefn.

BETH YW'R TRIBIWNLYS PRISIO?

Mae yna bedwar Tribiwnlys Prasio (TP) yng Nghymru sydd o dan nawdd y Tribiwnlys Prasio Cymru (TPC) ac yn cael eu hariannu gan gronfeydd cyhoeddus Llywodraeth Cymru (LC).

Mae TP yn annibynnol oddi wrth y Swyddog Rhestru (SR) sy'n gyfrifol am asesu Bandiau Treth y Cyngor ar anheddau, a hefyd y Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) sy'n cyhoeddi biliau Treth y Cyngor.

Gwirfoddolwyr a phobl leol yw Aelodau'r Tribiwnlysoedd. Er nad ydynt efallai yn gymwys yn broffesiynol, maent yn derbyn hyfforddiant ac yn brofiadol mewn gwrandawrio apeliadau. Fel arfer bydd tri aelod yn gwrandawrio ar eich apêl [er fe all dau aelod wrando apêl os ydi pawb sydd yn y gwrandawriad yn cytuno i hun]. Bydd clerics yn cynghori ar faterion trefn a'r gyfraith. Mae'r clerics yn gyflogedig gan y Tribiwnlys.

Mae TP yn darparu gwasanaeth rhad ac am ddim, felly ni allant ddyfarnu eich bod yn talu costau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi dalu eich costau eich hunain i fynychu'r gwrandawriad tribiwnlys. Mae'r Tribiwnlysoedd yn gwrandawrio apeliadau yn lleol, lle bo modd gwneud hynny.

SUT DDERBYNIODD Y TP YR APÊL?

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r SR yrru pob cynigiad sydd heb eu cytuno at Clerics y Tribiwnlys, o fewn chwe mis o'u derbyn, hyd yn oed os nad oes unrhyw drafodaethau wedi digwydd. Unwaith mae'r TP yn derbyn cynigiad mae'n dod yn apêl.

Os yw eich apêl yn erbyn penderfyniad y SR fod eich cynigiad yn annilys, mae'n rhaid i'r SR ei yrru at y Tribiwnlys o fewn pedair wythnos.

Os yw'r hysbysiad yn cynnwys unrhyw fanylion anghywir cysylltwch â Swyddfa Rhanbarthol y Tribiwnlys ar unwaith.

Os nad ydych yn dymuno mynd ymlaen a'ch apêl mae'n rhaid i chi hysbysu Clerics y Tribiwnlys, yn ysgrifenedig.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Er budd rheolaeth effeithiol, mae'r SR yn gweithredu system sy'n rhaglennu apeliadau fel y rhoir rhagrybudd o'r cyfnod trafod: cyn y rhestru gan y Tribiwnlys. Mae Tribiwnlys yn ystyried bod y weithred hon gan y SR o gymorth i'r ddau barti a'r Tribiwnlys, o safbwynt prosesu apeliadau yn effeithiol a'r defnydd o adnoddau sy'n cael eu hariannu gan y cyhoedd. Yr amser prysuraf yw yn union wedi ailbrisiad: ac o ganlyniad mae'n bosibl y bydd oedi yn y flwyddyn gyntaf (2005/06) ond rhagwelir y bydd hyn yn gwella mewn blynyddoedd i ddod.

Bydd y Tribiwnlys yn rhestru eich apêl ar gyfer gwrandawriad yn ei dro, fel arfer dyddiad o fewn tri mis wedi'r cyfnod trafod, a bydd hysbysiad ffurfiol o'r dyddiad, amser a man cyfarfod yn cael ei gyhoeddi (Hysbysiad Gwrandawriad).

Dylai gwrandawriad Tribiwnlys gael ei weld fel cam terfynol eich apêl pan fo trafodaethau blaenorol wedi methu cyrraedd cytundeb.

Dylech geisio cynnal trafodaethau gyda'r SR tan ddiwrnod y gwrandawriad.

Er mwyn sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'r holl faterion, bydd y TP yn gyrru copïau o unrhyw wybodaeth/ohebiaeth berthnasol sy'n cael ei yrru i'r Tribiwnlys at y partion.

Cyn i'ch apêl gael ei restru ar gyfer gwrandawriad, mae yna rai pethau dylech fod yn ymwybodol ohonynt:-

Mae'r SR wedi rhoi yr eiddo yn un o'r naw Band Treth y Cyngor, yn seiliedig ar Werth Marchnad Agored yr eiddo ar y 1af Ebrill 2003 y dyddiad prisio blaenorol, (DPB) gan gofio rhai rhagdybiaethau statudol.

Band	Amrediad Gwerthoedd	hyd at
A		£44,000
B	£44,001	£65,000
C	£65,001	£91,000
D	£91,001	£123,000
E	£123,001	£162,000
F	£162,001	£223,000
G	£223,001	£324,000
H	£324,001	£424,000
I	£424,001 ac uwch	

Pan nad yw eiddo apêl wedi bod yn destun gwerthiant ar adeg y dyddiad prisio, bydd y SR yn ystyried y dystiolaeth ar eiddo tebyg yn y gymdogaeth sydd wedi cael eu gwerthu ar y farchnad agored ar neu o gwmpas y DPB.

Bydd y SR yn edrych os yw manylion arolwg yr eiddo yn gywir, o safbwynt maint a chynllun.

Dylai'r SR allu ddarparu manylion unrhyw dystiolaeth gwerthiant a ystyriwyd wrth osod yr eiddo mewn band prisio. Gall y SR ddyfynnu gwerthiant tebyg yn ffurfiol: yna gallwch chi ofyn am fanylion gwerthiant nifer tebyg o eiddo.

Mae'r SR a'ch cyngor lleol yn cadw copïau o'r rhestr brisio, sy'n dangos bandiau'r holl eiddo yn ardal eich cyngor. Gallwch ofyn i'r SR neu'r cyngor adael i chi edrych ar y rhestr, er mwyn i chi allu cymharu band eich eiddo gydag eraill rydych yn ystyried eu bod yn debyg. Mae copïau o restrau prisio ar gyfer pob eiddo yng Nghymru a Lloegr ar gael ar wefan yr Asiantaeth Swyddfa Brisio (www.voa.gov.uk).

GWYBODAETH AR APELIADAU HYSBYSIAD ANNILSRWYDD

Nodwch os gwelwch yn dda pan fo Tribiwnlysoedd yn ystyried Apeliadau Annilrwydd, maent yn cael eu hatal rhag ystyried cywirdeb y bandio.

Gall y Tribiwnlys edrych ar y rheolau ynglŷn â gwneud cynigiad, yn unig.

Os yw'r Tribiwnlys yn penderfynu fod eich cynigiad yn ddilys, bydd yn ystyried materion prision yn ddiweddarach.

OES RHAI I MI BARHAU I DALU TRETH Y CYNGOR?

Mae'n rhaid i chi barhau i wneud y taliadau ddangosir ar eich bil, er eich bod wedi cyflwyno apêl.

BETH SY'N DIGWYDD YNG NGWRANDAWIAD Y TRIBIWNLYS?

Fel rheol, mae gweithrediadau yn ystod y gwrandawriad yn anffurfiol. Bydd y Tribiwnlys yn penderfynu pwy fydd yn cyflwyno eu hachos yn gyntaf ac yn sicrhau fod unrhyw un sy'n anghyfarwydd â gweithdrefn y Tribiwnlys yn derbyn y cyfle i gyflwyno eu tystiolaeth, a bod y ffactorau perthnasol yn cael eu hystyried. Anfonir taflen yn cynnwys rhagor o wybodaeth gyda'r 'Hysbysiad Gwrandawriad'.

OES RHAI I MI FYNCHU'R GWRANDAWRIAD?

Gall y Tribiwnlys ddelio â'ch apêl drwy ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

- Drwy **wrandawriad cyhoeddus** (gyda'r partïon neu eu cynrhychiolwyr) oni bai fod y Tribiwnlys yn gorchymyn yn wahanol yn sgîl cais gan un o'r partïon.
- Drwy **gynrychiolaeth ysgrifenedig** gan yr holl bartïon i'r apêl, na chaniateir i'r un ohonynt ymddangos gerbron y tribiwnlys. Os ydych yn dymuno i'ch apêl gael ei benderfynu drwy's dull hwn **rhaid i chi sicrhau cytundeb yr holl bartïon i'r apêl**. Bydd y Clerc yn eich cynghori ynglŷn â'r dulliau gweithredu a'r cyfyngiadau amser. Gall y tribiwnlys, wrth benderfynu apêl drwy gynrychiolaeth ysgrifenedig, ofyn i'r naill barti neu'r llall ddarparu tystiolaeth ychwanegol neu i wrando ar yr apêl wrandawriad ffurfiol.
- Drwy **gyflwyniad ysgrifenedig mewn absenoldeb**. Os ydych yn dymuno i'ch apêl fynd yn ei flaen, ond yn methu bod yn bresennol yn y gwrandawriad, ac nad oes unrhyw un i'ch cynrychioli, cewch gyflwyno'ch dadleuon yn ysgrifenedig er mwyn i'r Tribiwnlys eu hystyried yn eich absenoldeb: fodd bynnag bydd y SR yn mynychu.

Gall y Tribiwnlys ddiystyru'r apêl os nad ydych chi na'ch cynrychiolydd yn mynychu'r gwrandawriad.

Rydym yn ymroddedig i drin pob un yn deg. Ni fydd unrhyw un sy'n gwneud apêl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu hil, lliw, cenedligrwydd, oed, crefydd, tras ethnig, rhyw, rhywioldeb, statws priodasol neu anabledd.

Os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol, er enghraifft, eich golwg, clyw neu symudedd, neu os byddwch angen cyfieithydd, rhowch wybod i Swyddfa'r TP o flaen llaw, os gwelwch yn dda. Fe fyddwn yn gwneud ein gorau i'ch helpu.

Os oes gennych gŵyn ynglŷn â'r modd y cafodd eich achos ei drin gan weinyddiaeth y TP, yna:

- Yn gyntaf, dylech ysgrifennu at Clerc Rhanbarthol y Tribiwnlys, yn y cyfeiriad ddangosir yn ein hysbysiadau.
Byddwch yn cael eich hysbysu o drefn cwyno llawn y Tribiwnlys yn ymateb y Clerc Rhanbarthol.

Gallwch ddefnyddio'r broses yma o gwyno yn erbyn y modd cafodd eich apêl ei ymdrin yn weinyddol gan y Tribiwnlys, yn unig. Ni allwch apelio yn erbyn penderfyniad drwy'r modd hyn. Mae apêl pellach yn erbyn y penderfyniad i'r Llysoedd Uwch.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae hysbysiadau yng Nghymru yn cael eu darparu unai yn Gymraeg a/neu Saesneg, yn ddibynol ar yr iaith ddefnyddiwyd yn y cynigiad gwreiddiol.

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r arweinyfr hwn yn un o gyfres o daflenni sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth. Mae ein harweinyfrau eraill yn cynnwys:

- cyngor cyffredinol ynglŷn ag apelio i'r Tribiwnlys;
- arweinyfr i'n hysbysiad gwrandawriad; ac
- arweinyfr i'n hysbysiad penderfyniad.

Rydym hefyd yn cynnig arweinyfrau ynglŷn â delio gydag Atebolrwydd Treth y Cyngor ac apelïadau Rhestr Brisio Annomestig. Os ydych yn dymuno derbyn unrhyw un o'r arweinyfrau hyn, cysylltwch â Swyddfa Rhanbarthol y Tribiwnlys yn y cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiad cydnabyddiaeth.

Ein Cofnodion

Mae gan unrhyw un yr hawl i ymweld â swyddfeydd y TP i edrych ar gopïau o'r agendâu a phenderfyniadau wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe blynedd diwethaf. Agendâu yw rhestr o apelïadau sydd wedi derbyn dyddiad gwrandawriad.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Tribiwnlysoedd Prisio ynghyd â chopïau o'r holl arweinyfrau ar y gwefan ganlynol sef: www.valuation-tribunals-wales.org.uk

Y prif ddeddfwriaeth sy'n rheoli gweinyddiaeth Treth y Cyngor yw **Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992** ynghyd â'r rheoliadau ategol – yn arbennig;

- i) Rheoliadau Treth y Cyngor (Newidiadau i Rhestrau ac Apeliadau) (Cymru) 1993 Offeryn Statudol 290 (fel y'i diwygiwyd)
- ii) Rheoliadau Tribiwnlys Prisio (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd)

Tribiwnlys Priso Cymru

Rhanbarth Dwyrain Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 266367
Ffacs: 01633 253270
E-bost: VTWaleseast@vtw.gsi.gov.uk

CS Powys
CBS Blaenau Gwent
CBS Caerffili
CS Sir Fynwy
CT Casnewydd
CBS Torfaen

Swyddfa Priso:

Asiantaeth y Swyddfa Priso
Tŷ Glyder, 339 Stryd Fawr
Bangor, Gogledd Cymru
LL57 1EP
Ffôn: 03000 505505
E-bost: ctwales@voa.gsi.gov.uk

Tribiwnlys Priso Cymru

Rhanbarth Gogledd Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth, Bloc A (L1)
Sarn Mynach
CYFFORDD LLANDUDNO
LL31 9RZ
Ffôn: 03000 625350
Ffacs: 03000 625368
E-bost: VTWalesnorth@vtw.gsi.gov.uk

CBS Wrecsam
CS Y Fflint
CS Ddinbych
CS Gwynedd
CS Ynys Môn
CBS Conwy

Swyddfa Priso:

Asiantaeth y Swyddfa Priso
Tŷ Glyder, 339 Stryd Fawr
Bangor, Gogledd Cymru
LL57 1EP
Ffôn: 03000 505505
E-bost: ctwales@voa.gsi.gov.uk

Tribiwnlys Priso Cymru

Rhanbarth De Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD NP20 4PG
Ffôn: 01633 255003
Ffacs: 01633 255004
E-bost: VTWalesouth@vtw.gsi.gov.uk

CBS Pen-y-bont ar Ogwr
CS Caerdydd
CBS Rhondda Cynon Taf
CBS Bro Morgannwg
CBS Merthyr Tudful

Swyddfa Priso:

Asiantaeth y Swyddfa Brisio
Tŷ Glyder, 339 Stryd Fawr
Bangor, Gogledd Cymru
LL57 1EP
Ffôn: 03000 505505
E-bost: ctwales@voa.gsi.gov.uk

Tribiwnlys Priso Cymru

Rhanbarth Gorllewin Cymru
Llys-y-Ddraig
Parc Busnes Penllergaer
ABERTAWE
SA4 9NX
Ffôn: 03000 254530
Ffacs: 03000 254522
E-bost: VTWaleswest@vtw.gsi.gov.uk

CBS Castell-nedd-Port Talbot
Dinas a Sir Abertawe
CS Caerfyrddin (Rhan 3)
CS Caerfyrddin (Rhan 1 a 2)
CS Ceredigion
CS Sir Benfro

Swyddfa Priso:

Asiantaeth y Swyddfa Brisio
Tŷ Glyder, 339 Stryd Fawr
Bangor, Gogledd Cymru
LL57 1EP
Ffôn: 03000 505505
E-bost: ctwales@voa.gsi.gov.uk